Cyngor Cymuned Cerrigydrudion
Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar yr 16eg Fai 2017

Presennol – Menai Hughes Cadeirydd, Prys Ellis, John D Jones, Einion Edwards, Ieuan Jones, Ffuon Williams, Trystan Humphreys, Cyng. Peter Lewis Cyng BS Conwy, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau - Guto G Jones
Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

[1] Ethol Cadeirydd
Penderfynwyd yn unfrydol ethol Menai Hughes yn Gadeirydd y Cyngor.

[1.1] Ethol Is Gadeirydd
Penderfynwyd yn unfrydol ethol Ffuon Williams yn Is Gadeirydd y Cyngor.

[1.2] Aelod Cyfethol
Croesawyd Trystan Humphreys yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

[1.3] Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol Ddiwygiol Trefn 2016
Cytunodd yr aelodau oedd yn bresennol i ymrwymo i'r cod ymddygiad.

[1.4] Cynrychiolaeth
Penderfynwyd fel a ganlyn :

[a] Pwyllgor Llywodraethwyr Ysgol Cerrig-y-Drudion am y flwyddyn 2017/18, Prys Ellis.
[b] Pwyllgor Elusen Addysgol, John D Jones.
[c] Pwyllgor Elusen Tŷ Du, John D Jones, Caerwyn Roberts.
[d] Pwyllgor Ardal Unllais Cymru, Ieuan Jones.

Cofnodion .
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 18fed Ebrill 2017.
Materion yn Codi :

[1.5] Yr Heddlu
Nid oedd yr heddlu yn bresennol. Cyfeiriodd y clerc at yr adroddiad canlynol gan yr heddwas Ceri Louise Evans:
Roedd galwad wedi ei dderbyn i ddau achos ynglŷn â beicwyr modur yn ardal Pentrellyncymer a bod yr heddlu wedi ymateb i'r ddau achlysur.
Mae'r heddlu hefyd yn gobeithio bod yn y gymuned yn yr wythnosau nesaf i gadw llygad ar yrru sy'n wrth gymdeithasol ayb.

[1.6] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]
Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.6] Golau stryd Maes Aled
Nodwyd bod y mater yn parhau.
[1.7] Sedd Wag y Cyngor Cymuned
Dywedodd y clerc iddo hysbysu bod sedd wag ar y Cyngor ar y 15fed Fai 2017. Dyddiad cau 8fed Fehefin 2017.

[1.8] Cae Llwyd
Cytunodd John D Jones gael golwg ar yr arwydd [dim beicwyr] yn y cae.

Y brif agenda
[1.9] Materion Cynllunio
Nodwyd bod y tri mater canlynol yn cael ei rhyddau;
[a] Cynllun Rheolaeth Mynediad, Coedwig Clocaenog SI 2441
[b] Cynllun Rheolaeth Cynefin, Coedwig Clocaenog SI 2441
[c] Cynllun Golau Is- Goch, Coedwig Clocaenog SI 2441

[2] Cyfrifon 2017/18
Cymeradwywyd y cyfrifon am y flwyddyn ariannol 1af Ebrill 2016 - Mawrth 2017.

[2.1] Adroddiad yr Archwiliwr Mewnol
[a] Cod Ymddygiad - Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r cod ymddygiad newydd sydd yn bodoli ers 1af Ebrill 2016. [Gweler cofnod 1.3]
[b] Dylai'r cyfrif banc fod yn effeithiol i 31/3/17 ac nid i 29/3/17 fel a gyflwynwyd i'r archwiliad.
[c] Nid oes tystiolaeth fod y Cyngor wedi clustnodi arian wrth gefn ar gyfer unrhyw brosiect. Mae gan y Cyngor arian wrth gefn sydd ar hyn o bryd yn uwch na'r gwariant blynyddol. Dylai'r Cyngor ystyried a ydyw'r arian wrth gefn ar gyfer unrhyw gynllun arbennig.
[d] Nid i'w cofnodion 5/4/16 wedi ei llofnodi gan y Cadeirydd
[e] Nodwyd y llythyr oddiwrth Swyddfa Archwilio Cymru.

[2.2] Arwyddion Cyflymnder 30 mya o gyfeiriad Llyn Brenig.
Y clerc i gael gair gyda'r adran briffyrdd ynglyn a'r arwyddion newydd yn y llan.

[2.3] Arolwg Trefniadau Etholiadol ar gyfer Bwdeistref Sirol Conwy
Nodwyd bod cyflwyniad yn Siambr y Cyngor yng Nghonwy ar y 1af Fehefin 2017 am 7.00 yh.

[2.4] Diffibriliwr/Pentrellyncymer
Cytunodd Einion Edwards wneud ymholiadau gyda'r trigolion ynglŷn â chyfrannu tuag at difflibirydd yn y pentre'.

[2.5] Llwybr Maes Aled
Polyn Concrid - Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r polyn sydd yn gogwyddo i'r llwybr.

[2.6] Adran yr Urdd
Penderfynwyd cyfrannu £100.00 tuag at gostau teithio i Eisteddfod yr Urdd yn Nhaf ac Elai.

Cadeirydd_____

Agenda ar gyfer cyfarfod y Cyngor nos Fawrth 4ydd Orffennaf 2017.

Ymddiheuriadau

Datgan diddordeb

Materion yn codi

Ceisiadau Cynllunio

Llythyrau

Derbyniadau/Talu biliau

Unrhyw fater arall.

Yreiddoch yn gywir
Menai Hughes, Cadeirydd.